# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | William Evans | Adran Etholiadol: | Pontybrenin |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Gwrthdlodi a Chymunedau |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymorthfeydd cyngor misol yng Nghlwb Pêl-droed Pentre'r Ardd rhwng 11.30am a 12.30pm (o leiaf awr) a mynd i'r afael â'r holl faterion/gwynion a gyfeiriwyd yn brydlon. Euthum hefyd i gymorthfeydd lleol yr heddlu a chyfarfodydd Cyngor Tref Llwchwr, y mae'r cofnodion ar gael ar wefan y cyngor yn www.llwchwrtowncouncil.gov.uk. Mae'r cyngor tref yn gwasanaethu ac yn cefnogi preswylwyr Pontybrenin, Pentre'r Ardd a wardiau Llwchwr, trwy ychwanegu at rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan Ddinas a Sir Abertawe. Er enghraifft, cyfleusterau hamdden yn y Neuadd Les, basgedi crog ac arddangosfeydd blodau gwyllt, Gorymdaith Lusernau'r Nadolig ac arddangosfa tân gwyllt ar y cyd â Chyngor Tref Gorseinon, darparu seddi cymunedol a dyfarnu grantiau ariannol i achosion teilwng yn ardal Llwchwr.

Lluniais a dosbarthais gylchlythyr a oedd yn amlygu materion lleol, a bûm yn ymdrin â nifer sylweddol o alwadau ffôn ac e-byst ar gyfer etholwyr, gan geisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o destunau a chynnig fy nghefnogaeth yn ôl y galw.

Roeddwn yn aml yn mynd am dro yn fy ward ac yn rhoi gwybod i adran briodol y cyngor am ddiffygion megis tyllau yn y ffordd, dodrefn stryd wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon gwasgarog.

Bûm yn ymweld â'r holl safleoedd ceisiadau cynllunio a oedd yn effeithio ar Ward Pontybrenin, sef ymweliadau safle, yn ôl y galw. Cysylltais yn rheolaidd â'r Tîm Heddlu Cymdogaeth lleol yng Ngorseinon gan gyfeirio cwynion preswylwyr megis gyrru'n rhy gyflym, parcio diwahaniaeth, cerbydau modur yn achosi rhwystr diangen ar y briffordd, baw cŵn a sbwriel. Roeddwn hefyd wedi dweud wrth swyddogion gorfodi'r cyngor am gwynion o ran mynd yn groes i Orchmynion Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Llinellau Melyn) a chamddefnydd ohonynt gan ofyn iddynt fod yn bresennol yn yr ardaloedd hyn pan fo hynny'n briodol.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cabinet | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 18 | 94 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe - Partneriaeth Preswylwyr | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Ymddiriedolwyr Cronfa Amwynderau'r Nadolig | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 2 | / | 2 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **45** | **/** | **50** | **90** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Fi yw Arweinydd y Cabinet ac yn Arweinydd Gwleidyddol dros Wrthdlodi a Chymunedau, sef y flaenoriaeth gorfforaethol gyffredinol bennaf ar gyfer y cyngor. Mae trechu tlodi a'i effaith ar unigolion, ynghyd â chyrhaeddiad addysgol, cyfleoedd gwaith a thwf economaidd yn hanfodol wrth gyflawni'n nodau ac amcanion strategol.

Roeddwn hefyd yn aelod o'r pwyllgorau canlynol nad ydynt wedi'u rhestru yn rhan 2 uchod:
Pum Grŵp Llywio Cymunedau'n Gyntaf (Cadeirydd)
Grŵp Partneriaid Strategol Cymunedau'n Gyntaf (Cadeirydd)
Grŵp Arweinyddiaeth Cydlyniant Cymunedol (Cadeirydd)
Panel Bwyd a Thyfu Cymunedol
Fforwm Darparwyr Penderi

***Cyrff Allanol (2015-2016***)
1. Cyngor Ymgynghorol Myfyrwyr ar Addysg Grefyddol
2. Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon (Cadeirydd)
3. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Tre Uchaf
4. Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Pontybrenin
5. Cyngor Tref Llwchwr

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cysylltais â chynllunwyr a'm hetholwyr ar gynigion drafft y Cynllun Datblygu Lleol a'i effaith bosibl enfawr ar symudiadau traffig ym Mhontybrenin a'r ardaloedd cyfagos. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i drafod y 1,600 amcangyfrifedig o dai newydd y cynigir eu hadeiladu yn ardaloedd Pentre'r Ardd a Llewitha dros y 15 mlynedd nesaf.

Ym mis Medi, 2015 agorwyd y man codi a gollwng newydd i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg Pontybrenin. Ers iddo agor, bu rhai problemau cychwynnol ond, erbyn hyn, mae'n debyg ei fod yn gweithio'n effeithiol. Bydd y cyfleuster hwn yn parhau i gael ei reoli a'i fonitro'n agos gan y ddwy ysgol.

Gan gydweithio â'r Cynghorydd Wilf Smith (Cyngor Tref Llwchwr) ynghylch rhodfa o goed ceirios aeddfed a dorrwyd ar Dir Comin Stafford, Heol Abertawe, Pentre'r Ardd, ac ar hyn o bryd mewn trafodaethau ag Ymddiriedolaeth Gwlad yr Haf sy'n berchen ar y tir.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:
04/05/2016 - Datblygu Economeg a Dichonoldeb Ariannol
19/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
09/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
25/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
28/07/2015 - Recriwtio a Dethol

**Adran 6:Gweithgareddau a materion eraill**
Roeddwn yn rhan o'r gwaith parhaol wrth gyflwyno cyswllt beicio 1.4km Pontybrenin o Bentre'r Ardd i Dregŵyr, sydd wedi'i ohirio oherwydd materion tir cyfreithiol sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth Gwlad yr Haf. Mae'r cyllid bellach wedi'i sicrhau.

Mae dau ddatblygiad tai newydd (220 o anheddau) yn Ward Pontybrenin bellach yn mynd rhagddynt ym Meysydd Pontybrenin (Persimmon) a Horizon Walk (Barratts). Dyrannwyd y ddau safle hyn ar gyfer datblygiad tai mewn Cynlluniau Datblygu Trefol olynol, yn dyddio'n ôl flynyddoedd lawer. Gwrthodwyd cais cynllunio ar gyfer 84 o dai ychwanegol ym Meysydd Pontybrenin gan y Pwyllgor Cynllunio ar ôl gwrthwynebiadau gan breswylwyr lleol yr oeddwn yn eu cefnogi'n llwyr.

Defnyddiwyd arian o'm lwfans amgylcheddol cynghorydd i wella'r arwynebau cerdded mewn tri llwybr hawliau tramwy cyhoeddus, sef Llwybr Cerdded Cyhoeddus 24 ym Mhentre'r Ardd, Llwybr Cerdded 27 yn Llewitha a 37 yr hen Heol Rufeinig, Pontybrenin. Mae symiau mawr o gerrig mân wedi'u gosod ac mae'r mannau draenio dŵr wyneb wedi'u glanhau.

Mae cael gwared ar 'Ynys Wyro' priffordd ym Mhentre'r Ardd wedi galluogi bysus gwasanaeth i stopio wrth gwrb uwch y safle bws y tu allan i Fynwent Pontybrenin, sydd bellach yn golygu bod teithwyr hŷn neu anabl yn gallu mynd ar y bws ac oddi arno'n ddidrafferth.

Mae rampiau i'r anabl wedi'u gosod ar y llwybr cerdded wrth gyffordd Heol Casllwchwr a Maes-y-Coed, i hwyluso pethau i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Mae Gorchymyn Gwahardd Rheoleiddio Traffig Ffyrdd newydd (Llinellau Melyn) wedi'i gyflwyno i ddiogelu cyffordd Pant Glas a Heol Dyffryn, Pontybrenin, lle roedd ceir wedi'u parcio'n llechfeddiannu ar y gyffordd.

Mae Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 20 mya newydd wedi'i gyflwyno yn Heol Casllwchwr, Heol Belgrave a Heol Dyffryn, fel mesur diogelwch ffyrdd er mwyn amddiffyn disgyblion a myfyrwyr sy'n mynd i'n 2 ysgol gynradd a'n coleg addysg bellach.

Mae Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffyrdd ar gyfer Gwahardd Aros (Llinellau Melyn) wedi'i gyflwyno ar hyd Heol Victoria, Pontybrenin, yn dilyn cwynion niferus am gerbydau'n rhwystro'r llwybr cerdded y tu allan i'r gampfa newydd i gynorthwyo'r traffig i lifo'n rhydd.

Mae gwaith ailwynebu priffyrdd cynhwysfawr wedi'i wneud wrth gyffordd Heol Abertawe a Heol yr Ysbyty, Garngoch, mewn ardal a oedd yn torri'n gyson ac yn creu tyllau mawr yn y ffordd.

Cafwyd cwynion am gamddefnydd digywilydd o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Cyfyngiad Pwysau 7.5 tunnell (Ac Eithrio Mynediad), mewn grym yn Heol Abertawe, Pentre'r Ardd, gan goetsis sy'n teithio i Goleg Gŵyr ac oddi yno'n ddyddiol. Mae camau'n cael eu cymryd gyda golwg ar atal yr arfer hwn rhag parhau.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet dros Wrthdlodi a Chymunedau
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 01.05.2016 |